# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

## DYDD GWENER, 10FED MAI, 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
R. S. Waters, Rheolwr Priffyrdd a Chludiant
A.J Morgan, Peirianydd Traffig
N. Skinner, Peiriannydd Strategaeth Trafnidiaeth ac Isadeiledd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 9.00 yb - 9.15 yb

### 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

### 2. COFNOD PENDERFYNIADAU – 15EG EBRILL 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2019 gan ei fod yn gofnod cywir.**

### 3. CAU PRIFFORDD GYHOEDDUS GER YR HEN YSGOL, TALACHARN

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gais a gafwyd gan berchennog/datblygwr yr Hen Ysgol, Talacharn i gau’n ffurfiol dwy ran fach o'r briffordd sy'n cael eu cynnal y tu blaen i'r eiddo.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol nad oedd y llecyn cyhoeddus y soniwyd amdano uchod o unrhyw ddiben i'r adran a'i fod yn golygu rhwymedigaeth cynnal a chadw.

Dywedwyd petai'r cais am i gau yn llwyddiannus, byddai'r arhosfan bysiau presennol sydd ar y rhan hon o'r briffordd yn cael ei adleoli yn y cyffiniau fel y nodir ar y cynllun a atodir i'r adroddiad ac y byddai'r costau cysylltiedig yn cael eu hailgodi ar y datblygwr.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gorchymyn i gau'r ffordd fel y nodir yn yr adroddiad a rhoi gorchymyn i'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i gau'r darn o'r briffordd yn unol ag Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

### 4. GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (AMRYWIOL FEYSYDD PARCIO, SIR GAERFYRDDIN)(AMRYWIAD RHIF 4)

Bu'r Aelod o'r Bwrdd y Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am

gymeradwyo cyflwyno’r gorchymyn arfaethedig a fyddai'n helpu i sicrhau bod cerbydau’n parcio’n drefnus yn y lleoliadau a restrir yn Atodiad 1 a 2 yn yr adroddiad.

Dywedwyd bod Pennaeth Gweinyddiaeth a Chyfraith y Cyngor wedi derbyn 170 o wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys deiseb o 55 o enwau yn gwrthwynebu'r cynigion a hysbysebwyd. Cafodd y gwrthwynebiadau eu crynhoi yn Atodiad 3 ynghyd â sylwadau ac argymhellion y swyddogion.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i'r cynigion ynghyd â'r gwrthwynebiadau cysylltiedig a gafwyd.

Argymhellwyd, yn dilyn rhoi ystyriaeth briodol i'r gwrthwynebiadau ac ymateb yr Awdurdod, gymeradwyo'r cynigion, fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Cyhoeddus o'r atodlen leoliadau (Atodiad 1), yn amodol ar wneud y newidiadau ym mharagraffau 3.8.1.2 a 3.9.1.2 yn yr adroddiad.

Yn dilyn rhoi ystyriaeth briodol o'r gwrthwynebiad a gafwyd mewn perthynas â Dafen Inn Row, Llanelli ac ymateb yr Awdurdod, roedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol o blaid cymeradwyo'r cynigion canlynol:-

- Dafen Inn Row, Llanelli
- Gogledd Parc Myrddin, Caerfyrddin
- Cofrestryddion Parc Myrddin, Caerfyrddin
- Selwyn Samuel, Llanelli

Gan ystyried nifer sylweddol y gwrthwynebiadau a ddaeth i law a oedd yn ymwned a nifer o’r meysydd parcio arfordirol/hamdden, gofynnodd yr aelod o’r Bwrdd Gweithredol i ragor o ystyriaeth gael ei roi i’r gwrthwynebiadau a bod adroddiad pellach yn cael ei baratoi ar gyfer y Bwrdd Gweithredol. Bydd y cynigion ar gyfer y meysydd parcio canlynol yn destun ystyriaeth bellach:

a) Harbwr Porth Tywyn
b) Coetir, Porth Tywyn
c) Y Draethlin, Porth Tywyn
d) Meysydd Gŵyl , Llanelli
f) Rotary Way, Pen-bre
g) Coetir Mynydd Mawr, Tymbl
h) Coetir Mynydd Mawr, Cefneithin
c) Doc y Gogledd, Llanelli
d) Parc Dŵr Sandy, Llanelli
f) Llyn Llech Owain
g) Pentywyn
h) Bynea

**PENDERFYNWYD:**

**4.1 nodi'r gwrthwynebiad fel y'i manylir yn Atodiad 3 mewn perthynas â Dafen Inn Row, Llanelli;**

**4.2 cymeradwyo'r cynigion fel y manylwyd arnynt yn Atodiad 1:-**

- Dafen Inn Row, Llanelli;
- Gogledd Parc Myrddin, Caerfyrddin;
- Cofrestryddion Parc Myrddin, Caerfyrddin;
- Selwyn Samuel, Llanelli.

**4.3 bod yr adroddiad diwygiedig a'r cynigion fel y'u disgrifir yn Atodiad 1 [ac eithrio'r rhai uchod a grybwyllir yn 4.2] yn destun adroddiad pellach i'r Bwrdd Gweithredol.**

| | |
|---|---|
| **AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** | **DYDDIAD** |